



Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl
Residential Property Tribunal

CANLLAWIAU AR APELIO GAN Y TRIBIWNLYS EIDDO PRESWYL

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.

Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

1. Mae penderfyniad y Tribiwnlys Eiddo Preswyl (RPT) yn derfynol ac ni all yr RPT ailedrych ar y penderfyniad hwnnw na'i ailystyried. Os byddwch yn anafodlon ar benderfyniad RPT, y drefn statudol ar gyfer datrys hynny yw apelio i'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd).¹
2. Bydd yr RPT yn rhoi rhesymau ysgrifenedig dros ei benderfyniad. Gall penderfyniad a'r rhesymau drosto gael eu rhoi gyda'i gilydd. Fel arall, gall y penderfyniad gael ei roi'n gyntaf a gall dogfen yn nodi'r rhesymau gael ei hanfon yn ddiweddarach.
3. Er mwyn apelio, rhaid i chi gael caniatâd i wneud hynny yn gyntaf. Rhaid gwneud cais am ganiatâd i'r RPT yn gyntaf. Os bydd RPT yn gwrthod rhoi caniatâd, gallwch ofyn i'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) am ganiatâd i apelio. (Gweler paragraff 9 isod am fanylion).
4. Y rheol gyffredinol yw bod rhaid i chi wneud eich cais i'r RPT am ganiatâd i apelio o fewn y cyfnod o 21 diwrnod o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad penderfyniad fel y dyddiad y rhoddwyd y penderfyniad.² (Fel arall gallwch wneud cais llafar am ganiatâd mewn gwrandawriad os bydd y tribiwnlys, yn ystod y gwrandawriad hwnnw, yn cyhoeddi'r penderfyniad yr hoffech apelio yn ei erbyn).³
5. Er gwaethaf y rheol gyffredinol (uchod), gall yr RPT ymestyn yr amser a ganiateir i wneud cais am ganiatâd i apelio hyd yn oed os yw'r cyfnod o 21 diwrnod wedi dod i ben. Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y gall wneud hynny: (a) lle na fyddai'n rhesymol disgwyl i chi wneud cais neu fod wedi gwneud cais am ganiatâd o fewn y cyfnod o 21 diwrnod neu (b) lle byddai gwrthod cais hwyr yn fater o anghyfiawnder sylweddol.⁴
6. Rhaid i gais ysgrifenedig am ganiatâd i apelio gael ei lofnodi gennych chi neu eich cynrychiolydd a rhaid:

- a) nodi eich enw a'ch cyfeiriad chi ac unrhyw gynrychiolydd;
 - b) nodi'r penderfyniad a'r tribiwnlys rydych yn gofyn am ganiatâd i apelio yn eu herbyn a
 - c) nodi'r rhesymau rydych yn bwriadu eu cyflwyno yn yr apêl.
7. Ar ôl cael cais am ganiatâd, bydd yr RPT yn rhoi copi i bob parti arall i'r penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn. Er mwyn hwyluso'r broses, byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn darparu digon o gopiâu gyda'r cais.
8. Bydd yr RPT yn eich hysbysu chi a phob parti arall o'i benderfyniad yn ysgrifenedig. Os bydd yr RPT yn rhoi caniatâd i chi apelio i'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) rhaid i chi anfon hysbysiad o'ch bwriad i apelio at gofrestrydd yr Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) fel ei fod yn ei gael o fewn mis i'r dyddiad yr anfonodd yr RPT hysbysiad atoch yn datgan bod gennych hawl i apelio.⁵
9. Os bydd yr RPT yn gwrthod rhoi caniatâd i apelio, gallwch adnewyddu eich cais am ganiatâd i'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd). Rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig a dylai'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) ei gael o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad yr anfonodd yr RPT hysbysiad atoch yn datgan ei fod wedi gwrthod eich cais 6 (Mae manylion am bŵer yr Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) i ganiatáu hysbysiad o apêl neu gais am ganiatâd i apelio y tu allan i'r terfyn amser perthnasol ar gael yn nhaflen yr Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd), sef "Explanatory Leaflet: A Guide for Users").

Gellir cysylltu â'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) yn:

Upper Tribunal (Lands Chamber)
 5th Floor Rolls Building
 7 Rolls Buildings
 Fetter Lane
 LONDON
 EC4A 1NL
 DX: 160042 Strand 4

Ffôn: 0207 612 9710
 Ffacs: 0207 612 9723
 E-bost: lands@tribunals.gsi.gov.uk
 Gwefan: www.landstribunal.gov.uk

Typetalk: 18001 0207 612 9710

¹ Deddf Tai 2004. Adran 231

² Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012 (A1 Rhif 531(W83))

³ Ibid

⁴ Ibid

⁵ Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Uwch Dribiwnlys) (Siambwr Tiroedd) 2010